



Eich cyf/Your ref P-05-988  
Ein cyf/Our ref KW/03594/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor  
Deisebau

9 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Gorffennaf ynghylch deiseb P-05-989 i sicrhau y caiff plant gweithwyr allweddol gyfle cyfartal i fanteisio ar sesiynau '*ailgydio, dal i fyny, paratoi*' yn eu hysgolion.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gynnig rhywfaint o eglurder i'r Pwyllgor Deisebau o ran y mater hwn. Deallaf fod hyn yn peri pryder i lawer o deuluoedd ledled Cymru nawr fod y trefniadau ar gyfer gweithredu ysgolion a lleoliadau yng Nghymru hyd at ddiwedd tymor yr haf bellach ar waith.

Ers cau sefydliadau addysg statudol ar 20 Mawrth, mae ein hysgolion wedi parhau i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc ac rwy'n falch o nodi bod mwy na 700 o hybiau wedi parhau ar agor er mwyn darparu gofal plant i'n dysgwyr mwy agored i niwed a phlant ein gweithwyr hanfodol yr oedd angen y ddarpariaeth honno arnynt. Wrth ymgymryd â'r rôl wahanol hon a chyfrannu at yr ymdrech genedlaethol i fynd i'r afael â'r feirws, mae ein staff addysgu a staff ein hysgolion wedi gallu helpu i sicrhau y gall miloedd o weithwyr hanfodol barhau i ymgymryd â'u rolau allweddol, cefnogi'r wlad ar adeg o angen cenedlaethol ac, yn y pen draw, achub bywydau. Fel gwlad, mae ein dyled yn fawr i bob un o'n gweithwyr hanfodol.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydnabod bod Cymru yn destun cyfyngiadau symud o hyd, a bod y coronafeirws yn fygythiad gwirioneddol o hyd ac y bydd yn parhau i effeithio ar ein bywydau am gyfnod hwy. Wrth i ni barhau i fynd i'r afael â'r coronafeirws a chynllunio ar gyfer ail frig posibl, mae'r Prif Weinidog wrthi ar yr un pryd yn ymdrechu'n ofalus ac yn y ffordd orau bosibl i fanteisio ar yr hyblygrwydd sydd ar gael i wneud mân addasiadau er mwyn llacio'r cyfyngiadau cymdeithasol sydd ar waith, ac mae'n amlwg iawn ein bod yn wynebu sefyllfa drosiannol. Wrth benderfynu ailagor ysgolion i fwy o ddysgwyr, rwyf wedi gwneud y defnydd gorau o'r hyblygrwydd sydd ar gael i ni i sicrhau y caiff y mwyafrif helaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

o blant rywfaint o amser cyswllt hanfodol â'u hysgolion a'u lleoliadau ar ddiwedd tymor yr haf hwn, gan gynnwys plant ein gweithwyr allweddol.

Fy nod allweddol yw sicrhau y caiff cymaint o blant â phosibl gyfle i weld eu ffrindiau mewn ffordd ddiogel, gweld eu hathrawon yn eu hysgolion arferol, ymgysylltu â'u hysgolion a threfn yr ysgol, ailgydio yn eu dysgu a chanolbwyntio ar eu llesiant. Mae'n cynnig man diogel i ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer mis Medi. Yn ystod y cyfnod byr hwn, bydd ysgolion a lleoliadau yn canolbwyntio'n bennaf ar lesiant ein plant a'u dysgu. Heb gael y cyfle hwn cyn mis Medi, byddai'r mwyafrif o ddysgwyr yn treulio chwe mis heb fynd i'r ysgol. Mae effaith hyn ar eu llesiant a'u dysgu yn destun pryder mawr i mi.

Wrthi i allu ysgolion i weithredu gynyddu dros dymor yr haf, byddem yn disgwyl i'r plant hynny sy'n mynychu'r ddarpariaeth hybiau ar hyn o bryd (o bosibl mewn ysgol wahanol) ddychwelyd i'w hysgol neu eu lleoliad eu hunain. O ran y dysgwyr hynny, rydym yn disgwyl i ysgolion a lleoliadau barhau i gynnig darpariaeth ychwanegol iddynt, ochr yn ochr â'r dysgu y mae ganddynt yr hawl iddo am weddill tymor yr haf. Mae hyn yn golygu y bydd ein hysgolion hefyd yn parhau i gynnig cymorth gofal plant ychwanegol i'n dysgwyr agored i niwed a phlant ein gweithwyr hanfodol.

Fodd bynnag, ar ôl darparu canllawiau cenedlaethol i ysgolion a lleoliadau gofal plant a thrwy gytundeb â CLILC, ein hawdurdodau lleol ac undebau llafur ysgolion, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llwyr nad ni sy'n cyflogi staff ysgolion. Mae awdurdodau lleol wedi rhoi trefniadau lleol ar waith gan ystyried capasiti pob ysgol a lleoliad, nifer y staff a'r gofod ffisegol; y modelau gweithredu a ddefnyddir gan yr awdurdod; y galw am leoedd ym mhob ardal ac anghenion dysgwyr. Maent hefyd wedi ystyried trefniadau gofal plant lleol ac opsiynau eraill y gallant eu cefnogi. Mae awdurdodau lleol wedi gweithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau sy'n gweithredu fel hybiau er mwyn rheoli'r cyfnod pontio, ac mae ysgolion wedi bod yn cyfathrebu â'u cymunedau er mwyn esbonio'r trefniadau a roddwyd ar waith yn lleol, sut y byddant yn gweithredu a pha ddarpariaeth sydd ar gael.

Rwy'n cydnabod na fu hyn yn hawdd a bod gan gymunedau gwahanol ledled Cymru anghenion gwahanol y mae'n rhaid i ni geisio eu diwallu. Yn anochel, mae ysgolion yn gweithredu mewn ffordd hyblyg. Er mwyn croesawu nifer cynyddol o blant a phobl ifanc yn ôl, mae'n rhaid i'r amodau fod yn ddiogel ac mae'n rhaid i'r risg y caiff y feirws ei drosglwyddo fod yn isel. Felly, bu'n rhaid cyflwyno mesurau glanhau a hylendid caeth ar gyfer ysgolion a lleoliadau sy'n bodloni canllawiau cenedlaethol a lleol, mesurau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a threfniadau sy'n golygu mai dim ond nifer cyfyngedig o staff a phlant sy'n bresennol ar unrhyw un adeg. Mae cyfyngu cysylltiadau cymdeithasol hefyd yn bwysig i leihau'r tebygolrwydd y ceir achosion sylweddol o'r feirws. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i leihau achosion o gymysgu rhwng grwpiau o blant. Mae cadw pobl mewn grwpiau bach a chyson o oedolion a dysgwyr, gan barhau yn y grwpiau hynny drwy gydol yr wythnos, ac ar wahân i grwpiau eraill, yn helpu i wneud hyn ac yn osgoi achosion lle caiff cadwyni trosglwyddo eu creu.

Wrth ddychwelyd i'r ysgol, rydym yn cynghori y dylai plant fynychu un lleoliad yn unig lle bynnag y bo'n bosibl, ac y dylent barhau yn yr un grŵp bach a chyson yn y lleoliad hwnnw cyhyd ag y bo'n bosibl, er mwyn helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd y feirws yn symud rhwng grwpiau yn y lleoliad unigol hwnnw, neu'n symud rhwng grwpiau mewn gwahanol lleoliadau. Felly, os bydd plentyn yn mynychu mwy nag un lleoliad, dylai barhau yn yr un grŵp bach yn y ddau lleoliad lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Nid yw cymysgu plant o wahanol grwpiau, neu wahanol ysgolion, yn gydnaws â'r angen i leihau lefelau cyswllt cyffredinol.


Mae'n bosibl y bydd angen i rieni a lleoliadau drafod y risgiau hyn ac ystyried sut i'w rheoli er mwyn lleihau lledaeniad y feirws, gan gydweithio'n unol â'r canllawiau a ddarparwyd.

Cyfrifoldeb pob ysgol yw cyflwyno a chyfleu'r trefniadau lleol hyn a, lle bynnag y bo'n bosibl, roi cyfle i bob un o'i dysgwyr fynychu er mwyn ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer mis Medi. Byddwn yn annog rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid i barhau i ymgysylltu â'u hysgolion a'u lleoliadau, a'u hawdurdodau lleol, er mwyn deall pa ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol hyd at ddiwedd tymor yr haf sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau.

Rwy'n siŵr bod awduron y ddeiseb hon yn cydnabod y pwynt hwn, ac rwy'n falch o weld bod y ddeiseb yn gofyn i ni ddychwelyd at ddarparu trefniadau addysgol arferol ar gyfer plant gweithwyr allweddol yn ddiweddarach pan gaiff y cyfyngiadau cymdeithasol eu diddymu ac y gall ysgolion a lleoliadau ddychwelyd at drefniadau mwy normal. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad pellach maes o law ar y cynlluniau ar gyfer mis Medi.

Rwy'n parhau i fod yn hynod falch o ymdrech, ymroddiad ac aberth eithriadol ein gweithwyr hanfodol yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae ein gweithwyr yn y GIG a'n gweithwyr gofal cymdeithasol, ein cadwyni cyflenwi a'n gwasanaethau hanfodol, ein gwasanaethau brys, a'n hathrawon a staff ein hysgolion, wedi chwarae rhan allweddol fel gweithwyr hanfodol wrth leihau effaith y pandemig, diogelu rhag marwolaethau ac osgoi caledi gwaeth. Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn parhau i fonitro lledaeniad y feirws yng Nghymru. Rhaid i ni fod yn barod i ymateb i ddatblygiadau mewn perthynas â'r feirws, gan gynnwys rhoi mesurau ychwanegol ar waith os bydd angen cyflwyno cyfyngiadau pellach.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**

Y Gweinidog Addysg

Minister for Education